BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru

Gorffennaf 2024

This document is available in Saesneg. Mae'r ddogfen hon ar gael yn English.

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Prif bwyntiau 4

Nodiadau ar y data a ddefnyddiwyd yn y bwletin hwn 5

Poblogaeth sefydliadau cymunedol 6

Mae nifer y bobl sy'n byw mewn sefydliadau meddygol a gofal wedi bod yn sefydlog ar lefel Gogledd Cymru yn y degawd diwethaf, er bod patrymau newid yn amrywio ar lefel awdurdodau lleol 6

Mae cyfran y bobl hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol wedi bod yn gostwng ers 2001 8

Nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth (65 oed a throsodd) 11

Cynyddodd nifer a chyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth rhwng 2013 a 2023 11

Disgwylir i'r twf barhau i'r degawd nesaf 12

Amcanestyniad o lefelau twf o ran galw am leoedd mewn sefydliadau cymunedol .. 15

Mae'n bosibl y gall twf mewn anghenion gofal cymhleth oherwydd dementia gymell cynnydd mewn galw 16

Ni ellir defnyddio data ar ei ben ei hun i ragweld y tueddiadau ar gyfer y galw am ofal preswyl yn y dyfodol 19

Prif bwyntiau

- Mae nifer yr unigolion sy'n byw mewn sefydliadau meddygol a gofal wedi bod yn sefydlog ar lefel Gogledd Cymru ers degawd, ond mae'r patrymau newid yn amrywio ar lefel awdurdod lleol.
- Mae cyfran y bobl hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol wedi lleihau ers 2001. Mae'r gostyngiad yn amlwg iawn ar gyfer rhai 85 oed a throsodd.
- Nid yw patrymau twf pobl hŷn yn y boblogaeth dros y ddegawd ddiwethaf yn cyfateb â'r newidiadau a welwyd yn y niferoedd a'r cyfrannau o bobl hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol.
- Mae nifer a chyfran y bobl hŷn wedi cynyddu rhwng 2013 a 2023 ac mae disgwyl i'r ddau fesurydd barhau i gynyddu yn y deng mlynedd nesaf.
- Os ydym yn defnyddio'r data am gyfraddau oedran penodol diweddar o bobl yn byw mewn sefydliadau cymunedol a'r lefel amcanestynedig o dwf y boblogaeth dros y deng mlynedd nesaf gallwn ragdybio cynnydd posibl mewn preswylwyr dros 65 oed mewn sefydliadau cymunedol o oddeutu 1,430 ar draws Gogledd Cymru rhwng 2024 a 2034.
- Ond, nid yw'r cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn golygu y bydd y gofyniad am leoedd mewn cartrefi gofal yn cynyddu ar yr un gyfradd. O gymharu â'r newidiadau a welwyd ers 2001 byddai'r ffigwr o 1,430 yn or-amcanestyniad sylweddol o'r twf posibl.
- Nododd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad diweddaraf dwf yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia fel cymhelliant posibl ar gyfer y cynnydd mewn galw am ddarpariaeth cartrefi gofal, yn bennaf oherwydd datblygiad anghenion gofal cymhleth.
- Mae tystiolaeth yn yr adroddiad yn awgrymu nad oes perthynas syml rhwng twf yn y boblogaeth o bobl 65 oed a throsodd a nifer y preswylwyr hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol. Mae sawl elfen a fydd yn effeithio ar alw yn y dyfodol nad oes modd eu modelu, gan gynnwys polisïau gofal cenedlaethol a lleol, capasiti y cyflenwyr a'r gweithlu, ac agweddau cymdeithasol tuag at ofal preswyl.

Nodiadau ar y data a ddefnyddiwyd yn y bwletin hwn

Cafodd y darn hwn o waith ei gynhyrchu gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data newydd pan fydd ar gael.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a darparu cymhariaeth â'r hyn a oedd yn digwydd pum neu 10 mlynedd yn flaenorol, i helpu i fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol). Mae hefyd yn golygu bod angen trin unrhyw amcanestyniadau yn yr adroddiad gyda gofal, er mai dyma'r unig ffynhonnell ddata swyddogol sydd ar gael i ni ac sy'n cael ei hyrwyddo'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ymwybodol eu bod yn ddiffygiol. Dylid ei drin fel data dangosol yn unig, ac ni ddylid ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer cynllunio hirdymor.

Amharodd y pandemig Covid-19 ar ddilyniant data a'r gallu i gymharu rhai setiau data â'i gilydd – boed hynny oherwydd newid y drefn o gasglu data neu roi'r gorau iddi'n gyfan gwbl, neu oherwydd bod pobl yn ymddwyn yn wahanol ac felly heb gael eu cyfrif yn yr un ffordd neu yn yr un lleoedd. Rydym wedi nodi lle mae hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar y data yn yr adroddiad hwn.

Poblogaeth sefydliadau cymunedol

Mae'r polisi hirdymor yn tueddu i ogwyddo tuag at ddarparu mwy o ofal yn y cartref ac mae gwelliannau cyffredinol yn iechyd y boblogaeth yn golygu nad yw'r galw am ofodau mewn cartrefi gofal wedi cynyddu ar yr un gyfradd â thwf yn y boblogaeth. Hefyd mae perthynas o ran galw a chyflenwad rhwng lleoedd mewn cartrefi gofal a nifer y preswylwyr – os nad oes cyfleusterau ar gael mewn ardal, yna ni fydd modd cofnodi pobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol.

Mae nifer y bobl sy'n byw mewn sefydliadau meddygol a gofal wedi bod yn sefydlog ar lefel Gogledd Cymru yn y degawd diwethaf, er bod patrymau newid yn amrywio ar lefel awdurdodau lleol

Ffigur 1: pobl sy'n byw mewn sefydliadau meddygol a gofal yng Ngogledd Cymru, 2021

Ardal	Cyfanswm y boblogaeth	Byw mewn sefydliadau meddygol a gofal - nifer	Byw mewn sefydliadau meddygol a gofal - canran	O'r rhain: byw mewn cartref gofal gyda nyrsio	O'r rhain: byw mewn cartref gofal heb nyrsio
Ynys Môn	68,900	470	0.7%	80	380
Gwynedd	117,400	1,040	0.9%	370	620
Conwy	114,750	1,430	1.2%	500	830
Sir Ddinbych	95,800	1,310	1.4%	400	770
Sir y Fflint	154,950	800	0.5%	310	420
Wrecsam	135,100	1,140	0.8%	340	580
Gogledd Cymru	686,900	6,180	0.9%	1,990	3,590

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Poblogaeth 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Cyfrifiad 2021 yn ein caniatáu i edrych ar ble mae ein poblogaeth breswyl yn byw fel arfer, a faint o bobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol. Tra ein bod yn parhau i fod yn eithaf agos at Ddiwrnod y Cyfrifiad (21 Mawrth 2021) mae'r data hwn yn gallu bod yn fwy dibynadwy na'n data gweinyddol am breswylwyr cartrefi gofal, gan ei fod yn cofnodi gwybodaeth am bobl sy'n hunan-ariannu yn well. Ond, gan ei fod yn dibynnu ar hunan-gategoreiddio efallai y bydd rhywfaint o gam-gyfrifo o

gymharu â data arall, yn enwedig ar gyfer poblogaethau bach (boed yn ardal ddaearyddol fach neu grwpiau oedran bach).

O'r 11,800 o breswylwyr yng Ngogledd Cymru a oedd yn byw mewn sefydliadau cymunedol ym mis Mawrth 2021 roedd oddeutu 6,200 yn byw mewn sefydliadau meddygol a gofal. Roedd hyn oddeutu 0.9% o gyfanswm y boblogaeth, sy'n cymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr o 0.6%. Mae'r canran yn uwch yng Nghonwy a Sir Ddinbych oherwydd proffil oedran y boblogaeth - mae cyfran uwch o bobl hŷn yn y boblogaeth yn golygu ei bod yn debygol bod mwy o bobl yn byw mewn cartrefi gofal.

Roedd oddeutu 5,590 o bobl yn byw mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth 2021 - oddeutu 1,990 mewn cartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio ac oddeutu 3,590 heb ofal nyrsio.

Ffigur 2: newid yn nifer y bobl oedd yn byw mewn cartrefi gofal rhwng 2011 a 2021 – siart



Ffynonellau: Cyfrifiadau Poblogaeth 2021 a 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Er y newidiadau yn strwythur y boblogaeth, mae cyfanswm y ffigwr ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru yn debyg i'r rhai a welwyd yng Nghyfrifiad 2011 (oddeutu 5,590 yn 2021 o gymharu â 5,560 yn 2011), er bod y

newid yn amrywio ar lefel awdurdod lleol. Mae gwahaniaethau ar lefel awdurdod unedol yn debygol o gael eu cymell gan newid yn y boblogaeth a phenderfyniadau polisi lleol, er enghraifft cyfran uwch o ofal yn cael ei ddarparu yng nghartrefi'r preswylwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Ffigur 3: newid yn nifer y bobl oedd yn byw mewn cartrefi gofal rhwng 2011 a 2021 – tabl

Ardal	2021 nifer	2011 nifer	Newid 2011-2021 - nifer	Newid 2011-2021 - canran
Ynys Môn	460	630	-170	-27.0%
Gwynedd	990	830	160	19.8%
Conwy	1,330	1,590	-260	-16.1%
Sir Ddinbych	1,170	810	360	45.2%
Sir y Fflint	730	660	70	10.5%
Wrecsam	910	1,060	-150	-13.8%
Gogledd Cymru	5,590	5,560	30	0.5%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Cyfrifiadau Poblogaeth 2021 a 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gwelodd Ynys Môn, Conwy a Wrecsam ostyngiad net yn nifer y rhai sy'n byw mewn sefydliad meddygol a gofal rhwng 2011 a 2021. Gwelodd Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint gynnydd yn y niferoedd.

Mae cyfran y bobl hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol wedi bod yn gostwng ers 2001

Gan edrych ar y data yn ôl oedran y preswylwyr mae'n dangos bod oddeutu 4,970 o bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru'n byw mewn sefydliadau cymunedol yn 2021. Y ffigwr yw pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal gan fwyaf (gyda a heb ddarpariaeth nyrsio), ond gan na allwn ddadansoddi data'r grŵp oedran yn fanylach bydd hefyd yn cynnwys cyfran fechan o bobl mewn mathau eraill o sefydliadau cymunedol fel hostel, ysbyty a gwesty.

Ar gyfartaledd, mae oddeutu 3.1% o bobl 65 oed a throsodd yn byw mewn sefydliadau cymunedol yng Ngogledd Cymru. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd o 3.3% yn 2011 a 4.8% yn 2001. Mae'r gyfran yn amrywio rhwng ardaloedd yr awdurdodau lleol, yn rhannol ddibynnol ar strwythur oedran yr ardal a blaenoriaethau polisi lleol (ac weithiau'n ddibynnol ar y berthynas rhwng galw a chyflenwad).

Ffigur 4: nifer y bobl 65 oed a throsodd sy'n breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol, 2021

Ardal	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd
Ynys Môn	470	60	110	290
Gwynedd	940	110	270	560
Conwy	1,130	180	320	630
Sir Ddinbych	860	170	280	410
Sir y Fflint	660	80	210	370
Wrecsam	920	200	290	440
Gogledd Cymru	4,970	800	1,480	2,690

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: TS047 - Preswylwyr sefydliadau cymunedol yn ôl oedran a rhyw, Y Cyfrifiad Poblogaeth 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 5: canran y bobl 65 oed a throsodd sy'n breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol, 2021

Ardal	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd
Ynys Môn	2.6%	0.6%	1.8%	13.3%
Gwynedd	3.4%	0.7%	3.0%	14.7%
Conwy	3.6%	1.1%	3.0%	13.9%
Sir Ddinbych	3.6%	1.3%	3.5%	13.7%
Sir y Fflint	2.0%	0.5%	1.9%	9.9%
Wrecsam	3.4%	1.3%	3.2%	13.2%
Gogledd Cymru	3.1%	0.9%	2.7%	13.1%

Canran yw cyfanswm y boblogaeth yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal honno.

Ffynhonnell: TS047 - Preswylwyr sefydliadau cymunedol yn ôl oedran a rhyw, Y Cyfrifiad Poblogaeth 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae cyfradd Gogledd Cymru'n uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, yn enwedig ar gyfer y rhai 85 oed a throsodd. Mae ffigyrau cyfartalog Cymru yn 2.6% ar gyfer yr holl rai 65 oed a throsodd, a 11.0% ar gyfer y rhai 85 oed a throsodd.

Y newid mwyaf sylweddol ers 2011 oedd gostyngiad yng nghyfran y rhai 85 oed a throsodd sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol yn y mwyafrif o ardaloedd. Mae'r cynnydd yng Ngwynedd a Sir y Fflint wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd mewn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ystod y ddegawd, fel y gwelir yn ffigurau 2 a 3 uchod.

Gostyngodd cyfartaledd Gogledd Cymru o 14.7% yn 2011 i 13.1% yn 2021. Yn 2001 y ffigwr oedd 20.5%.

Ffigur 6: cyfran y bobl 85 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru a oedd yn byw mewn sefydliadau cymunedol, 2011 a 2021



Ffynonellau: Cyfrifiadau Poblogaeth 2021 a 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth (65 oed a throsodd)

Data sylfaenol am y boblogaeth yw'r sylfaen ar gyfer ein dealltwriaeth o unrhyw newid yn y niferoedd, cyfraddau a chanrannau y byddwn yn bwrw golwg arnynt yng nghyd-destun y problemau gofal cymdeithasol a lles y mae gennym ddiddordeb neilltuol ynddynt.

Nid yw patrymau twf pobl hŷn yn y boblogaeth dros y degawd diwethaf yn cyfateb â'r newidiadau a welwyd yn y niferoedd a'r cyfrannau o bobl hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol.

Cynyddodd nifer a chyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth rhwng 2013 a 2023

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2023) yn nodi bod cyfanswm nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 165,350. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 83,850 o bobl 65-74 oed, 60,200 o bobl 75-84 oed a 21,300 o bobl 85 oed a throsodd.

Ffigur 7: nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, 2023

Ardal	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd	Gwrywod	Benywod
Ynys Môn	18,800	9,500	6,900	2,400	8,800	10,000
Gwynedd	27,950	14,150	10,000	3,800	13,100	14,800
Conwy	32,000	15,800	11,750	4,400	14,750	17,200
Sir Ddinbych	24,300	12,300	8,900	3,150	11,350	13,000
Sir y Fflint	34,050	17,400	12,600	4,050	15,750	18,300
Wrecsam	28,300	14,750	10,050	3,450	13,050	15,200
Gogledd Cymru	165,350	83,850	60,200	21,300	76,800	88,550

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae mwy o ferched nag o ddynion 65 oed a hŷn. Mae cyfran y merched yn y boblogaeth yn cynyddu yn y grwpiau oedran hŷn – mae merched yn cyfrif am 52% o'r boblogaeth 65-70 oed a 67% o'r boblogaeth 90 oed a throsodd.

Rhwng 2013 a 2023, cynyddodd y boblogaeth 65 oed a throsodd yng Ngogledd gan 17,800 – gan gynyddu o 21.4% o gyfanswm y boblogaeth i 23.9%.

Yn yr un cyfnod, cynyddodd y boblogaeth 85 oed a throsodd gan 2,150 (2.8% o'r boblogaeth yn 2013 o'i chymharu â 3.1% yn 2023).

Mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o'i phoblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn nag ar draws Cymru (21.4%) neu'r DU ar y cyfan (18.7%). Mae'r cyfrannau o bobl hŷn yn y boblogaeth ar eu huchaf yng Nghonwy ac Ynys Môn.

Ffigur 8: newid yn nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, 2013 a 2023

Ardal	2023 nifer	2023 canran	2013 nifer	2013 canran	Newid 2013-23
Ynys Môn	18,800	27.1%	16,500	23.6%	2,300
Gwynedd	27,950	23.4%	26,400	21.9%	1,500
Conwy	32,000	28.0%	29,450	25.5%	2,550
Sir Ddinbych	24,300	25.0%	21,200	22.5%	3,100
Sir y Fflint	34,050	21.9%	29,300	19.2%	4,750
Wrecsam	28,300	20.8%	24,700	18.2%	3,550
Gogledd Cymru	165,350	23.9%	147,550	21.4%	17,800

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.
Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Disgwylir i'r twf barhau i'r degawd nesaf

Nid yw'r data ynghylch tueddiadau yn y dyfodol wedi'i ddiwygio eto ar sail data newydd o Gyfrifiad 2021. Bydd yno ddiwygio helaeth ar faint y poblogaethau, amcanestyniadau poblogaeth a'r holl gyfraddau a thueddiadau a gyfrifir ar sail y poblogaethau hynny. Golyga hynny nad oes modd dibynnu mwyach ar yr amcanestyniadau yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen ynglŷn â newid yn nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn yr ugain mlynedd nesaf.

Er gwaethaf hynny, wrth aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei amcanestyniadau swyddogol (a ddisgwylir erbyn haf 2025) gallwn wneud rhai tybiaethau ynglŷn â thueddiadau yn y dyfodol ar sail y data'r ydym eisoes wedi bwrw golwg arnynt. Mae disgwyl i gyfran a nifer y bobl hŷn gynyddu hyd at ddiwedd y 2030au, pan fydd carfan cenhedlaeth y cynnydd (baby boomers) yn dechrau gadael y boblogaeth. Gallwn dybio hefyd, gan fod nifer y bobl yn y grwpiau oedran hŷn yn debygol o

barhau i gynyddu, bydd nifer y bobl gydag anghenion gofal o fewn y boblogaeth yn debygol o gynyddu hefyd.

Ffigur 9a: newid a ragwelir ym mhoblogaeth Gogledd Cymru rhwng 2024 a 2034 (ffigurau dangosol yn unig) – niferoedd

Ardal	Pob oedran	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd
Ynys Môn	-350	2,650	1,450	300	950
Gwynedd	3,700	3,850	2,350	150	1,350
Conwy	2,550	6,550	3,550	1,100	1,900
Sir Ddinbych	1,150	4,450	2,650	450	1,350
Sir y Fflint	2,000	5,750	3,350	250	2,150
Wrecsam	-2,100	4,350	2,350	450	1,550
Gogledd Cymru	7,000	27,600	15,650	2,650	9,250

Ffigur 9b: newid a ragwelir ym mhoblogaeth Gogledd Cymru rhwng 2024 a 2034 (ffigurau dangosol yn unig) – canran

Ardal	Pob oedran	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd
Ynys Môn	-0.5%	13.9%	14.9%	4.0%	38.3%
Gwynedd	2.9%	13.1%	16.2%	1.2%	33.2%
Conwy	2.1%	18.8%	21.1%	8.6%	35.7%
Sir Ddinbych	1.2%	18.1%	21.2%	5.0%	47.4%
Sir y Fflint	1.3%	16.4%	19.2%	1.7%	49.7%
Wrecsam	-1.5%	15.2%	16.1%	4.1%	43.8%
Gogledd Cymru	1.0%	16.1%	18.3%	4.2%	41.0%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran ar gyfer y newid a ragwelir rhwng 2024 a 2034.

Mae'r data yn y tablau hyn o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 ac yn darparu ffigyrau dangosol yn unig felly dylid eu defnyddio gyda chafeatau cryf o ran eu cywirdeb. Bydd y data, tybiaethau a methodoleg ar gyfer cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth cadarn yn newid yn sylweddol pan gynhyrchir amcanestyniadau swyddogol yn seiliedig ar 2022 yn ystod yr haf 2025.

Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Disgwylir i dwf y boblogaeth fod ar ei uchaf yn y grwpiau oedran uwch yn y deng mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd mwyafrif y grwpiau oedran dan 65

oed yn gostwng yn ystod yr un cyfnod. Bydd cenhedlaeth y cynnydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd (baby boomers) yn symud i grŵp oedran 85 oed a throsodd yn ystod y ddegawd, a bydd y garfan a anwyd yng nghanol y 1960au yn symud i'r ystod oedran ôl-ymddeol. Mae gostyngiad yn y cyfraddau geni ers y 1970au yn golygu y bydd y cenedlaethau sydd i ddilyn yn llai.

Amcanestyniad o lefelau twf o ran galw am leoedd mewn sefydliadau cymunedol

Os ydym yn defnyddio'r data am gyfraddau oedran penodol diweddar o bobl yn byw mewn sefydliadau cymunedol (ffigur 5) a'r lefel amcanestynedig o dwf y boblogaeth dros y deng mlynedd nesaf (ffigur 9) gallwn gyfrifo sut y gall y galw am leoedd mewn sefydliadau cymunedol gynyddu. Byddai hyn yn cyflwyno cynnydd posibl mewn preswylwyr 65 oed a throsodd mewn sefydliadau cymunedol o oddeutu 1,430 ar draws Gogledd Cymru rhwng 2024 a 2034.

Ffigur 10: newid a ragwelir yn nifer y preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol yng Ngogledd Cymru rhwng 2024 a 2034 (ffigurau dangosol yn unig)

Ardal	Pawb 65 oed a throsodd	Oedran 65 i 74	Oedran 75 i 85	85 oed a throsodd
Ynys Môn	140	10	10	120
Gwynedd	220	20	0	200
Conwy	340	40	30	260
Sir Ddinbych	240	30	20	190
Sir y Fflint	230	20	0	210
Wrecsam	250	30	10	210
Gogledd Cymru	1,430	140	70	1,220

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r data yn y tablau hyn o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018 ac yn darparu ffigyrau dangosol yn unig felly dylid eu defnyddio gyda chafeatau cryf o ran eu cywirdeb. Bydd y data, tybiaethau a methodoleg ar gyfer cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth cadarn yn newid yn sylweddol pan gynhyrchir amcanestyniadau swyddogol yn seiliedig ar 2022 yn ystod yr haf 2025.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Y ffigyrau hyn yw pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal gan fwyaf (gyda a heb ddarpariaeth nyrsio), ond gan na allwn ddadansoddi data'r grŵp oedran yn fanylach bydd hefyd yn cynnwys cyfran fechan o bobl mewn mathau eraill o sefydliadau cymunedol fel hostel, ysbyty a gwesty.

Ond, nid yw'r cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl hŷn yn y boblogaeth yn golygu y bydd y gofyniad am leoedd mewn cartrefi gofal yn cynyddu ar yr un gyfradd, fel y nodir yn adran 'Poblogaethau sefydliadau cymunedol' yn yr adroddiad hwn. O gymharu â'r newidiadau a welwyd ers 2001, byddai'r ffigwr o 1,430 yn or-amcanestyniad sylweddol o'r twf posibl.

Mae'n bosibl y gall twf mewn anghenion gofal cymhleth oherwydd dementia gymell cynnydd mewn galw

Nododd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad diweddaraf a gyhoeddwyd yn 2022 dwf yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia fel cymhelliant posibl ar gyfer y cynnydd mewn galw am ddarpariaeth cartrefi gofal, yn bennaf oherwydd datblygiad anghenion gofal cymhleth. Ymddengys nad oes perthynas uniongyrchol rhwng twf y boblogaeth a'r galw am gartrefi gofal yn y deng mlynedd diwethaf, wrth i genhedlaeth y cynnydd a anwyd ar ôl yr ail ryfel byd (baby boomers) symud i'r grwpiau oedran sydd fwyaf tebygol o brofi dementia (85 oed a throsodd) efallai y bydd newid, a bydd angen paratoi i ddelio â'r cynnydd mewn galw. Mae'n debyg y bydd cynnydd mewn galw yn sgil gallu gofalwyr di-dâl i barhau i ymdopi â'r galw arnynt wrth iddynt hwythau heneiddio hefyd - mae gŵyr / gwragedd a phlant mwyafrif y genhedlaeth honno yn debygol o fod yn y grŵp oedran ôl-ymddeol yn ystod y ddegawd nesaf hefyd.

Ffigur 11: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru, 2013 a 2023

Ardal	2023 nifer	2013 nifer	Newid 2013-23 nifer	Newid 2013-23 canran
Ynys Môn	1,350	1,150	200	17.2%
Gwynedd	2,050	1,950	100	6.2%
Conwy	2,400	2,250	150	6.0%
Sir Ddinbych	1,750	1,500	250	17.9%
Sir y Fflint	2,400	1,900	450	24.5%
Wrecsam	2,000	1,700	300	16.3%
Gogledd Cymru	11,900	10,450	1,450	14.1%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Amcangyfrifir bod nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu o oddeutu 1,450 rhwng 2013 a 2023. Mae cyfradd y cynnydd wedi amrywio ar draws y rhanbarth, wedi'i ddylanwadu gan y newid yn nifer y bobl 65 oed a throsodd ym mhob ardal.

O'r 11,900 o bobl a amcangyfrifir sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, amcangyfrifir bod tua 7,400 ohonynt yn ferched a 4,500 yn ddynion. Y prif reswm pam fod yno fwy o ferched nag o ddynion yw gan fod merched yn byw yn hirach, ac mae dementia yn glefyd sy'n gysylltiedig â henaint. Fodd bynnag, mae dementia'n gyflwr sy'n effeithio'n anghymesur ar ferched am nifer o resymau ychwanegol. Mae cyfraddau mynychder fel arfer ychydig yn uwch i ferched. Credir yn gyffredinol bod y gwelliannau (gostyngiad) mewn mynychder a welwyd yn y degawdau diwethaf yn effeithio ar ddynion yn fwy na merched gan eu bod wedi'u llywio gan welliannau iechyd sydd â thuedd tuag at ddynion (gostyngiad mewn ysmygu a gwelliannau mewn trin cyflyrau'r galon er enghraifft). Os ydynt yn datblygu dementia, mae merched yn llai tebygol o fod â'r adnoddau i gefnogi eu hanghenion gofal, oherwydd y tebygolrwydd eu bod wedi ennill llai na'r dynion yn ystod eu bywydau gwaith. Mae merched hŷn yn fwy tebygol o fyw ar eu pen eu hunain na dynion hŷn, ac yn llai tebygol o gael partner i helpu i ddarparu gofal. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddarparwyr gofal – am dâl neu'n ddi-dâl – i bobl gyda dementia.

Ffigur 12: amcangyfrifon o nifer y bobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran a rhyw, 2023

Ardal	Cyfanswm	Cynnar (30-64 oed)	Oedran 65-84	Oedran 85+	Gwrywod	Benywod
Ynys Môn	1,350	30	1,300	550	500	850
Gwynedd	2,050	50	2,000	900	750	1,300
Conwy	2,400	50	2,350	1,050	900	1,500
Sir Ddinbych	1,750	40	1,700	700	650	1,100
Sir y Fflint	2,400	70	2,300	900	900	1,450
Wrecsam	2,000	60	1,950	800	750	1,250
Gogledd Cymru	11,900	300	11,650	4,900	4,500	7,400

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ac amcangyfrifon consensws o nifer yr achosion o ddementia (Prince, 2014).

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'r amcangyfrifon gorau cyfredol o'r rhaniad rhwng lefelau difrifoldeb dementia yn rhoi cymhareb o 1:2:4 ar gyfer dementia ysgafn, cymedrol a difrifol (Wittenberg, et al., Projections of older people with dementia and costs of dementia care in the United Kingdom, 2019–2040). Ar gyfer Gogledd Cymru, byddai hynny'n rhoi

amcangyfrif ar gyfer 2023 bod 1,700 o bobl gyda dementia ysgafn, 3,400 gyda dementia cymedrol a 6,800 gyda dementia difrifol.

Ni ellir defnyddio data ar ei ben ei hun i ragweld y tueddiadau ar gyfer y galw am ofal preswyl yn y dyfodol

Mae tystiolaeth o'r data yn yr adroddiad hwn yn awgrymu nad oes perthynas syml rhwng twf yn y boblogaeth o bobl 65 oed a throsodd a nifer y preswylwyr hŷn sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol. Mae sawl elfen a fydd yn effeithio ar alw yn y dyfodol nad oes modd i ni ei fodelu.

Rydym eisoes wedi gweld newidiadau yn y polisi cenedlaethol a lleol sy'n annog symud oddi wrth ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn, gyda gwasanaethau'n canolbwyntio ar gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired â phosibl. Mae gwelliannau yn iechyd y boblogaeth, gofal canolraddol, a gwasanaethau ailalluogi wedi golygu bod pobl yn gallu parhau i fyw yn annibynnol am gyfnodau hirach.

Mae ffactorau eraill yr ydym yn ymwybodol ohonynt sy'n gallu effeithio ar y galw am ofal preswyl a llety sefydliadol arall yn cynnwys capasiti'r sector i ddarparu'r lleoedd (perthynas galw / cyflenwad) a'r gallu i ddarparu gweithlu ar gyfer gwasanaethau gofal cartref sy'n fwy dwys.

Bydd ymagweddau cymdeithasol tuag at ofal preswyl yn cael effaith hefyd - Mae sut mae pobl yn teimlo am symud eu hunain neu eu perthnasoedd i gartref preswyl wedi'i effeithio gan y canfyddiadau o ddiogelwch mewn cartrefi gofal yn ystod pandemig Covid-19 er enghraifft. Gallai hefyd ddibynnu ar gapasiti teulu a ffrindiau i ddarparu gofal di-dâl i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi. Gall datblygiad dewisiadau tai ar gyfer anghenion pobl hŷn effeithio ar hyn hefyd - megis cynlluniau Gofal Ychwanegol neu bentrefi ymddeol y sector preifat.

Er bod ansicrwydd o ran y galw tebygol am gartrefi gofal, mae angen cynllunio ar gyfer y cynnydd a ddisgwylir mewn anghenion gofal. Er enghraifft, sicrhau fod gennym y gweithlu i ddarparu gofal yn y cartref, ein bod yn darparu tai hygyrch, a bod digon o gefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Mae'n debyg y bydd y galw yn y dyfodol yn cynnwys rhywfaint o gapasiti ychwanegol, yn enwedig mewn cartrefi nyrsio ac ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia oherwydd y cynnydd o ran cymhlethdod yr anghenion a nodwyd yn Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.